NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Holoclar ar gyfer trin diffyg bôn-gelloedd y limbws ar ôl llosgi'r llygad

16 Awst 2017

Mae holoclar (haen o gelloedd sydd wedi tyfu o gelloedd o'ch llygad eich hun) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer diffyg bôn-gelloedd y limbws cymedrol i ddifrifol i bobl sydd â llosgiadau llygaid o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- caiff ond ei ddefnyddio i drin 1 llygad
- maent eisoes wedi cael awtografftiad limbws cyfbilennol, neu ni allant ei gael.

Mae holoclar hefyd ar gael ar y GIG ar gyfer trin y ddau lygad pan nad oes digon o feinwe ar gyfer awtografftiad limbws cyfbilennol, ond dim ond i bobl sy'n cymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil (treial clinigol).

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

## *Gwybodaeth a chymorth*

Dilynwch ni ar Twitter a Facebook.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- RNIB, 0303 123 9999
- Eyecare Trust, 0845 128 5007

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-2629-9

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights